ArtWorks Cymru

Egwyddorion Ansawdd

EGWYDDORION ANSAWDD ARTWORKS CYMRU

Dechreuodd y daith i greu'r egwyddorion yma gyda thrafodaeth fawr yng Nghaerfyrddin. Fe wnaethom ofyn llawer o gwestiynau - beth mae "ansawdd" yn ei olygu pan fyddwch yn creu gwaith gyda phobl? Sut fyddwn ni'n gwybod pan fyddwn yn gweld / teimlo / clywed ansawdd? Beth sydd angen i ni ei wneud i sicrhau ansawdd? Nid oedd gennym mewn gwirionedd fframwaith i'n helpu i strwythuro ein sgwrs.

Gofynnodd Cyngor Celfyddydau Cymru i ni greu Egwyddorion Ansawdd ArtWorks Cymru er mwyn symud y sgwrs ymlaen. Byddant yn rhoi ffordd i siarad am ansawdd y gall pawb sy'n gwneud celfyddydau cyfranogol ei defnyddio.

Disgwyliwn i artistiaid a sefydliadau celf fod y prif rhanddeiliad sy'n defnyddio'r egwyddorion ansawdd, ond gobeithiwn y byddwch yn eu rhannu gyda'ch partneriaid ac yn gwneud defnydd ymarferol ohonynt.

Cawsant eu cynllunio i'ch helpu i feddwl am sut i wneud eich gwaith da yn well byth, i ddangos gwerth yr ymarfer yma, ac i wneud yn siŵr fod cyfranogydd yn cael y profiadau gorau posibl.

Cysylltwch â ni ac anfon astudiaeth achos os hoffech ddweud wrthym am eich profiad o ddefnyddio'r egwyddorion. Rydym yn hyn gyda'n gilydd!

Sut i ddefnyddio'r egwyddorion ansawdd

- Darllenwch am yr Egwyddorion islaw ac yna meddwl am yr hyn y dymunwch ganolbwyntio arno yn nhermau egwyddorion eich prosiect neu rhaglen gwaith.
- Gallwch weithio drwyddynt neu ganolbwyntio ar egwyddorion penodol sy'n taro tant gyda chi. Chi sydd i benderfynu.
- Ar gyfer pob egwyddor, awgrymwn ddangosyddion allweddol o ansawdd, ond dylech greu eich ddangosyddion pwrpasol eich hun.

Mae fersiwn ar-lein o'r adnodd hwn yn www.artworkcymru/egwyddorion-ansawdd. Fel y llyfryn hwn, mae'n ddwyieithog - Cymraeg a Saesneg!

Ariannwyd Egwyddorion Ansawdd ArtWorks gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ADRANNAU A CHYNNWYS

Bwriad

5. Trosolwg Bwriad

6. Artistig a Phroffesiynol, Perthnasol a Chynhwysol

7. Ysbrydoli, Herio ac Ennyn Diddordeb

Gweithgaredd

9. Trosolwg Gweithgaredd

10. Pwrpasol, Egnïol, Ymarferol a Myfyriol, Mewn Lleoliad Addas a bod ag Adnoddau Addas

11. Wedi'i Gynllunio a'i Werthuso ar y cyd, ac yn Ddiogel

Pobl

13. Trosolwg Pobl

14. Canolbwyntio ar y Cyfranogwyr, Ffocws ar Gynnydd y cyfranogwyr

15. Rhannu Perchnogaeth ac Chyfrifoldeb

Adnoddau a Chydnabyddiaeth

16. Offer ac Adnoddau

21. Am y celfwaith, Cyfranwyr

BWRIAD

Mae'r adran yma'n ymchwilio'r bwriad tu ôl i brosiectau a rhaglenni celfyddydau cyfranogol, a sut y gallech feddwl am ansawdd yng nghyswllt hyn.

Rydym wedi dynodi tair egwyddor ansawdd allweddol yng nghyswllt bwriad celfyddydau cyfranogol:

- Dylai'r bwriad fod yn artistig a phroffesiynol
- Dylai'r bwriad fod yn perthnasol a chynhwysol
- Dylai'r bwriad ysbrydoli, herio ac ennyn diddordeb

Artistig a Phroffesiynol

Mae'r gelf yn ganolog i ymarfer celfyddydau cyfranogol, ac mae'r egwyddor yma'n gwneud ymrwymiad i hyn. Mae hefyd yn amlinellu fod artistiaid yn weithwyr proffesiynol yn yr un ffordd â gweithwyr cymdeithasol, cwnselwyr neu feddygon. Dylent fod â gwybodaeth, sgiliau a phrofiad perthnasol yn ogystal â phroffil yn eu maes.

Mae dangosyddion allweddol yn cynnwys:

- Mae artistiaid yn aelodau o sefydliad aelodaeth addas e.e. People Dancing, Sound Sense, Cymdeithas Genedlaethol Awduron mewn Addysg
- Mae gan artistiaid ymarfer celfyddydol ffyniannus eu hunain
- Mae artistiaid yn dilyn datblygiad a hyfforddiant proffesiynol parhaus
- Mae prosiectau mewn cyd-destunau neilltuol yn ymwneud â hyfforddiant i gefnogi artistiaid wrth gyflenwi

Perthnasol a Chynhwysol

Mae ymarfer celfyddydau cyfranogol yn gweithio gyda phobl mewn gwahanol sefyllfaoedd ac mae ymarfer ansawdd uchel yn berthnasol i gyd-destun ei gyflwyno ac i'r cyfranogwyr mae'r artistiaid yn gweithio gyda nhw. Mae'r ymarfer yn un cynhwysol ac yn canolbwyntio ar alluogi rhai heb fod yn weithwyr proffesiynol i ymgysylltu gyda'r celfyddydau.

Mae dangosyddion allweddol yn cynnwys:

- Mae'r rhanddeiliaid allweddol yn glir am yr hyn a gyflenwir i bwy a pham
- Rhoddir gofod ar gyfer trafod sut i wneud y prosiect / rhaglen yn berthnasol i'r sawl sy'n cymryd rhan
- Daw artistiaid a phartneriaid ag arbenigedd gyda nhw am y cyd-destunau y maent yn cyflenwi ynddynt
- Mae'r rhanddeiliaid a'r tîm wedi ystyried beth mae cynhwysiant yn ei olygu iddynt yn strwythur eu prosiect / rhaglen

Ysbrydoli, Herio ac Ennyn Diddordeb

Dylai ymarfer celfyddyd cyfranogol ysbrydoli ac ennyn diddordeb y sawl sy'n cymryd rhan, ond bydd hefyd yn her. Yn gyffredinol bydd artistiaid yn gweithio gyda chyfranogwyr i ddatblygu sgiliau a gwneud rhywbeth nad ydynt wedi'i brofi o'r blaen. Bydd ymarfer ansawdd uchel yn cydbwyso hwyl gyda her a bydd artistiaid yn anelu i ysbrydoli'r sawl sy'n cymryd rhan i symud tu allan i'w parth cysur eu hunain.

Mae dangosyddion allweddol yn cynnwys:

- Cafodd arc y prosiect / rhaglen ei fapio a thrafodwyd y dull o drin heriau allweddol
- Caiff amcanion allweddol y gwaith eu cyfathrebu a'u deall gan bob partner ac artist sy'n cymryd rhan
- Daw artistiaid â'u hymarfer eu hunain i'r ystafell fel ysbrydoliaeth
- Mae cefnogaeth ar gael i artistiaid a chyfranogwyr i fynd ar daith y prosiect / rhaglen

Mae disgrifiad o'r geiriau a amlygir yn yr Eirfa ar dudalen rhif 17.



GWEITHGAREDD

Mae'r adran yma'n ymchwilio'r gweithgaredd a gyflwynir o fewn prosiect neu raglen celfyddydau cyfranogol a beth yw'r materion ansawdd allweddol.

Rydym wedi dynodi tair egwyddor ansawdd allweddol yng nghyswllt gweithgaredd celfyddydau cyfranogol:

- Dylai'r gweithgaredd fod yn bwrpasol, egnïol, ymarferol a myfyriol
- Dylai'r gweithgaredd fod mewn lleoliad addas a bod ag adnoddau addas
- Dylai'r gweithgaredd gael ei gynllunio a'i werthuso ar y cyd, ac yn ddiogel

Pwrpasol, Egnïol, Ymarferol a Myfyriol

Mae prosiectau celfyddydau cyfranogol yn brosiectau gwneud. Mae yna broses yn cael ei ddilyn, ac yn aml, mae yna ganlyniad pendant y mae'r artist a'r cyfranogwyr yn gweithio tuag ato. Yr artist fydd yn arwain y gwaith, ond mae cyfranogwyr yn cymryd rhan egnïol, a byddant yn gwneud, perfformio, crefftio a chreu. Bydd y broses hefyd yn cynnig cyfleoedd i'r holl randdeiliaid fyfyrio ar yr hyn sy'n digwydd yn y prosiect.

Mae dangosyddion ansawdd allweddol yn cynnwys:

- Caiff gweithgaredd ei gynllunio'n dda ac fe fydd yn symud ar gyflymder da
- Mae taith a gaiff ei rhannu o fewn y gweithgaredd, a all arwain at ganlyniad
- Mae cyfranogwyr yn cymryd rhan weithgar yn yr ymarfer celf a gaiff ei gyflwyno
- Cynigir cyfleoedd i'r holl randdeiliaid sy'n cymryd rhan i fyfyrio ar weithgaredd a'i gynnydd
- Caiff creu ei ddathlu a'i werthfawrogi

Mewn Lleoliad Addas a bod ag Adnoddau Addas

Mae angen amrywiaeth o adnoddau ar gyfer prosiectau cyfranogol. Y rhai allweddol yw:
Amser I Gofod I Stwff I Staff

Mae angen i'r adnoddau gael eu trafod rhwng pawb sy'n cymryd rhan - y rhai **tu hwnt i'r ystafell** (cyllidwyr), y rhai **tu allan i'r ystafell** (rheolwyr prosiect neu gomisiynwyr) a'r rhai **yn yr ystafell** (yr artistiaid a'r cyfranogwyr). Weithiau mae'r adnoddau yn llai na delfrydol ar gyfer prosiect ardderchog. Bydd hyn yn cael effaith ar yr ansawdd terfynol.

Mae dangosyddion ansawdd allweddol yn cynnwys:

- Cafodd y gofod a ddefnyddir ei ystyried yn ofalus ac mae'n addas i'r diben
- Mae'r rhaglen yn rhoi ystyriaeth i anghenion y cyfranogwyr ac yn rhoi digon amser i artistiaid gyflawni'r hyn sydd ar y gweill
- Mae cyllideb wedi ei rhoi yn ei le ar gyfer unrhyw adnoddau sydd eu hangen
- Caiff amser ei gynnwys ar gyfer paratoi a chynllunio
- Mae'r staff priodol yn eu lle gan y prosiect neu raglen

Wedi'i Gynllunio a'i Werthuso ar y Cyd, ac yn Ddiogel

Mae angen i brosiect da gael ei gynllunio'n ofalus. Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth o swyddi pawb sy'n ymwneud â'r prosiect. Mae angen i waith gael ei fonitro a'i werthuso, gyda golwg ar wella'r hyn a wnawn yn barhaus. Fodd bynnag, nid dim ond ar ddiwedd prosiect y dylai gwerthuso ddigwydd; mae angen iddo gael ei gynnwys ar hyd y broses. Mae angen cynnal asesiad risg ar brosiectau a dylent fod yn ddiogel i bawb sy'n cymryd rhan.

Mae dangosyddion ansawdd allweddol yn cynnwys:

- Yr holl gyfranddeiliaid yn glir am eu cyfrifoldebau o fewn y prosiect
- Clustnodwyd amser yn y rhaglen ar gyfer cynllunio a gwerthuso
- Mae artistiaid yn ymwneud â'r cynllunio o gam cynnar
- Mae asesiadau risg priodol a pholisïau diogelu ar waith
- Mae'n glir pwy sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch a chymorth cyntaf

Mae disgrifiad o'r geiriau a amlygir yn yr Eirfa ar dudalen rhif 17.

POBL

Mae'r adran yma'n ymchwilio'r bobl sy'n cymryd rhan mewn prosiect neu raglen celfyddydau cyfranogol a beth yw'r materion ansawdd allweddol sy'n bethnasol iddyn nhw.

Rydym wedi dynodi tair egwyddor ansawdd allweddol yng nghyswllt gweithgaredd celfyddydau cyfranogol:

- Prosiectau a rhaglenni sy'n canolbwyntio ar y cyfranogwyr
- Prosiectau a rhaglenni sy'n canolbwyntio ar gynnydd y cyfranogwyr
- Dylai fod yr holl randdeiliaid yn rhannu perchnogaeth a chyfrifoldeb

Canolbwyntio ar y Cyfranogwyr

Mae'r cyfranogwyr yn ganolog i ymarfer celfyddydau cyfranogol. Maent yn amrywiol ac unigol bydd angen i bob prosiect feddwl o'r newydd am anghenion yr unigolion a grwpiau penodol sy'n cymryd rhan. Os yw anghenion y bobl 'tu hwnt' neu 'tu allan' i'r ystafell yn gwrthdaro gydag anghenion y sawl sy'n cymryd rhan, yna mae angen trafodaeth bellach i gadarnhau fod pawb sy'n cymryd rhan yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i gefnogi'r prosiect. Meddyliwch am y prosiect o safbwynt y cyfranogwyr a sut bydd yr prosiect yn edrych iddyn nhw os yw'n brosiect da.

Mae'r dangosyddion ansawdd allweddol yn cynnwys:

- Cynlluniwyd y prosiect neu raglen o amgylch anghenion y cyfranogwyr
- Rydych wedi cynnwys cyfranogwyr wrth ddylunio a chynllunio'r prosiect neu raglen
- Mae'n glir i bob rhanddeiliad sut bydd cyfranogwyr yn cael eu cefnogi drwy gydol eu taith
- Cafodd anghenion unrhyw gyfranogydd penodol eu trin e.e. gofynion diet neu fynediad

Ffocws ar Gynnydd y Cyfranogwyr

Mae prosiectau celfyddydau cyfranogol yn galluogi cyfranogwyr i adeiladu sgiliau a phrofiad. Mae pob proses a gynhelir yn canolbwyntio ar ddatblygiad. Gall hyn ddigwydd o fewn un sesiwn neu un prosiect a rhaglen. Ond yn aml mae prosiectau yn gamau cychwynoli gyfranogwyr, a gallant arwain at brofiad arall. Mae cyllidwyr yn aml yn sôn am waddol y gwaith a wnaethpwyd, ac mae ystyriaeth o gynnydd cyfranogwyr yn gwneud prosiect yn fwy ystyrlon i bawb sy'n cymryd rhan.

Mae'r dangosyddion ansawdd allweddol yn cynnwys:

- Cynllun clir yn ei le ar gyfer cynnydd cyfranogwyr o fewn prosiect rhaglen
- Caiff cynnydd cyfranogwyr ei amlygu a'i ddathlu ym mhob sesiwn
- Trafodwyd gwaddol posibl y gweithgaredd ar gam cynnar
- Caiff cyfranogwyr eu cyfeirio at brosiectau neu raglenni eraill unwaith y bydd y gweithgaredd drosodd

Rhannu Perchnogaeth a Chyfrifoldeb

Mae gwaith ansawdd da angen cefnogaeth pawb sy'n cymryd rhan. Gall fod ystod eang o bobl yn ymwneud â phrosiect neu raglen: y rhai sydd '**yn yr ystafell**' (y cyfranogwyr ac artistiaid), '**tu allan i'r ystafell**' (comisiynydd, rheolwr prosiect, gweithwyr achos ac yn y blaen) a '**thu hwnt i'r ystafell**' (y cyllidwyr, cyfarwyddwr cwmni, ac yn y blaen). Mae ganddynt i gyd ddylanwad dros y gwaith a'i ganlyniadau.

Caiff perchnogaeth prosiectau celfyddydau cyfranogol ei rannu'n eang ac mae cyfathrebu a chefnogaeth clir rhwng rhanddeiliaid yn helpu i bawb ymddiried yn eu gilydd wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Mae'r dangosyddion ansawdd allweddol yn cynnwys:

- Pob rhanddeiliad yn deall eu swyddi a'u cyfrifoldebau
- Partneriaid yn cymryd rhan weithgar ac yn ymwneud â chynllunio
- Caiff artistiaid eu cefnogi'n dda i ddatblygu ac amrywio gweithgaredd wrth iddynt gyflenwi
- Pob rhanddeiliad yn hyrwyddo a gwerthfawrogi'r gweithgaredd a'i ganlyniadau
- Cafodd perchnogaeth y gweithgaredd a'i ganlyniadau ei drafod ac mae'n glir

Mae disgrifiad o'r geiriau a amlygir yn yr Eirfa ar dudalen rhif 17.

OFFER AC ADNODDAU

Rydym wedi cynllunio offer i'ch helpu i feddwl am ansawdd o fewn y prosiectau neu raglenni yr ydych yn eu cyflwyno, ac wedi eu hargraffu yn y llyfryn yma. Gallwch hefyd eu lawrlwytho o'n hadnodd ar-lein yma.

Mae hefyd ddolenni i rai o'r adnoddau eraill a ddatblygwyd gan ArtWorks Cymru ac i sefydliadau aelodaeth a gwefannau eraill sydd â gwybodaeth ddefnyddiol.

www.artworks.cymru/offer-ac-adnoddau

DOLENNI I SEFYDLIADAU AELODAETH

www.artworksalliance.org.uk

www.communitydance.org.uk

www.soundsense.org

www.engage.org

www.nawe.co.uk

www.a-n.co.uk/news

www.artsdevelopmentuk.org

www.trac.wales

www.nayt.org.uk

GEIRFA

Amcanion

Y gweithgareddau neu gamau a gynhelir i gyflawni eich amcanion

Ansawdd

Safon rhywbeth o'i fesur yn erbyn pethau eraill o fath tebyg; graddfa rhagoriaeth rhywbeth

Bwriad

Yr hyn mae'r prosiect neu raglen yn bwriadu ei gyflenwi

Celfyddydau Cyfranogol

Unrhyw brosiectau neu raglenni celfyddydol ar gyfer cyfranogwyr heb fod yn broffesiynol a gaiff eu harwain neu eu cynnal gan artistiaid proffesiynol

Cyfranogydd

Y person sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau cyfranogol

Cynnydd

Y newid y mae gweithgaredd celfyddydau cyfranogol yn ei ysgogi mewn cyfranogydd drwy gymryd rhan egnïol yn y prosiect

Dangosyddion

Gwybodaeth wedi'i diffinio'n dda sy'n dangos sut mae prosiect neu raglen yn perfformio

Datblygiad Proffesiynol

Sgiliau, gwybodaeth a phrofiad a gafwyd tu hwnt i hyfforddiant dechreuol yn anffurfiol neu'n ffurfiol wrth i chi weithio

Deilliannau

Y newidiadau, buddion, dysgu neu effeithiau sy'n digwydd fel canlyniad i'ch gwaith

Gofod

Yr ardal ddiffiniedig neu'r lle y cyflwynir prosiect neu raglen celfyddydau cyfranogol ynddo

Gwaddol

Buddion a newidiadau hirdymor sy'n digwydd fel canlyniad i'ch gwaith

Gweithgaredd

Yr hyn sy'n digwydd yn y prosiect neu raglen

Nodau

Y newidiadau y ceisiwch eu gwneud

Pobl

Pwy sy'n cymryd rhan yn y prosiect neu raglen

Prosiect

Gweithgaredd celfyddydau cyfranogol o fewn cyfnod penodol

Rhaglen

Gweithgaredd celfyddydau cyfranogol parhaus

Rhanddeiliad

Unrhyw un sydd â diddordeb neu gonsyrn mewn prosiect neu raglen celfyddydau cyfranogol

Taith

Log teithio gweithgaredd celfyddydau cyfranogol

Ymarfer Celfyddydol

Ymagwedd artist at eu gwaith

RHESTR WIRIO — ARTISTIAID/COMISIYNYDD

Bwriad Artistig a Phroffesiynoldeb

A ydych yn aelod o sefydliad aelodaeth perthnasol e.e. People Dancing, Sound Sense, Cymdeithas Genedlaethol Ysgrifenwyr mewn Addysg?

Sut ydych chi'n cadw eich ymarfer celfyddydol yn fyw?

Ydych chi wedi cynnig yr hyfforddiant a'r gefnogaeth briodol ar gyfer eich prosiect i'r artistiaid yr ydych yn gweithio â nhw?

Sut fyddwch chi'n penderfynu ar yr artist cywir i'w gomisiynu?

Perthnasol a Chynhwysol

Ydych chi wedi ystyried sut i wneud eich ymarfer yn berthnasol?

Ydych chi wedi ystyried sut i wneud eich ymarfer yn gynhwysol?

Sut mae'r prosiect a gomisiynwch yn berthnasol i'r cyfranogwyr y dymunwch eu cyrraedd?

Beth sydd angen i chi wneud i sicrhau fod y prosiect mor gynhwysol ag sydd modd? Beth mae cynhwysol yn ei olygu yn eich prosiect?

Ysbrydoli, Herio ac Ennyn Diddordeb

Ydych chi wedi ystyried beth fydd yn ysbrydoli a beth fydd yn herio yn eich ymarfer?

Ydych chi wedi datblygu ffyrdd i gael deunydd mwy heriol ar gyfer cyfranogwyr?

Beth yw'r amcanion allweddol ar gyfer y prosiect yr ydych yn ei gomisiynu?

Sut fyddwch chi'n cefnogi artistiaid i ysbrydoli, ymgysylltu a herio yn eich prosiect.

Pwrpasol, Egnïol, Ymarferol a Myfyriol

Ydych chi wedi ystyried sut y byddwch yn cael y cyfranogwyr i gymryd rhan yn y prosiect? Beth fyddant yn ei wneud?

Ydych chi wedi ystyried sut y byddwch yn cynnig cyfleoedd ar gyfer myfyrio ar hyd y broses?

Ydych chi wedi trafod eich disgwyliadau ar gyfer y broses a'r deilliant gyda'r artistiaid a gomisiynwyd?

Sut fyddwch chi'n dathlu a gwerthfawrogi'r hyn gafodd ei greu yn eich prosiect?

Lleoliad ac Adnoddau Addas

A oes digon o ofod ar gyfer y gwaith? Ai dyma'r gofod iawn, a meddwl yn neilltuol am gydraddoldeb a chynhwysiant?

Ydych chi wedi ystyried pa 'stwff' y byddwch ei angen i gyflwyno'r prosiect?

Ydych chi erioed wedi ystyried faint o amser sydd ei angen i baratoi'n iawn ar gyfer y prosiect yma a meithrin perthynas yn ogystal â chyflenwi'r prosiect?

Ydych chi wedi ystyried y staffio mae'r prosiect ei angen?

Wedi'i Gynllunio a'i Werthuso ar y Cyd, ac yn Ddiogel

Ydych chi'n glir am eich rôl ar y prosiect?

Ydych chi wedi ystyried sut y caiff y prosiect ei werthuso?

Ydych chi wedi cynllunio'r prosiect ar y cyd gyda'r holl randdeiliaid?

Sut fyddwch chi'n cefnogi'r cyfranogwyr drwy'r prosiect?

Yn Canolbwyntio ar y Cyfranogwyr

Ydych chi wedi cynllunio'r ymarfer celfyddydol o amgylch anghenion yr unigolion a'r grwpiau yr ydych yn gweithio gyda nhw?

Ydych chi wedi ystyried anghenion penodol er mwyn cadw'r gwaith yn gynhwysol?

Ydych chi wedi ystyried anghenion y cyfranogwyr?

Sut fyddwch chi'n cefnogi'r cyfranogwyr drwy'r prosiect?

Ffocws ar Gynnydd y Cyfranogwyr

Ydych chi wedi ystyried sut y byddwch yn galluogi datblygiad y cyfranogwr yn eich prosiect?

A allwch gyfeirio cyfranogwyr at brosiectau eraill yr ydych yn eu harwain?

Ydych chi wedi ystyried beth fydd yn digwydd i gyfranogwyr pan fydd y prosiect drosodd?

A allwch gyfeirio cyfranogwyr i brosiectau eraill neu gefnogi gwaith pellach?

Rhannu Perchnogaeth a Chyfrifoldeb

Ydych chi wedi ystyried pwy fydd yn eich cefnogi wrth gyflwyno'r prosiect.

Ydych chi wedi trafod y prosiect gyda nhw?

Ydych chi wedi trafod perchenogaeth artistig gyda'r comisiynydd a'r cyfranogwyr?

A ddaeth yr holl randdeiliaid ynghyd i drafod y prosiect?

A yw pawb yn glir am eu rôl a'u dylanwad dros y prosiect?

OFFERYN MYFYRIO EGWYDDORION ANSAWDD

Defnyddiwch yr offeryn yma i ddogfennu eich taith ansawdd:

	EGWYDDORION	Beth weithiodd yn dda?	Beth fyddai'n gwneud y gwaith yn well byth?	Beth oedd yr heriau?
BWRIAD	Bwriad Artistig a Phroffesiynoldeb			
BWRIAD	Ysbrydoli, Herio ac Ennyn Diddordeb			
BWRIAD	Perthnasol a Chynhwysol			
GWEITHGAREDD	Pwrpasol, Egnïol, Ymarferol a Myfyriol			
GWEITHGAREDD	Lleoliad ac Adnoddau Addas			
GWEITHGAREDD	Wedi'i Gynllunio a'i Werthuso ar y Cyd, ac yn Ddiogel			
POBL	Yn canolbwyntio ar y Cyfranogwyr			
POBL	Ffocws ar Gynnydd y Cyfranogwyr			
POBL	Rhannu Perchnogaeth a Chyfrifoldeb			

CYFRANWYR

GWEITHGOR FFRAMWAITH ANSAWDD

Hydref 2015 – Ionawr 2016

Hwylusydd: Rhian Hutchings, *Rheolwr Partneriaeth ArtWorks Cymru*

Ruth Garnault, *Ymgynghorydd Celfyddydau*

Miranda Ballin, *Valleys Kids*

Melaneia Warwick, *PRiA Arts*

Kathryn Williams, *Rubicon Dance*

David Baxter, *Arts Active*

Tîm Ieuenctid a Chymuned, *Opera Cenedlaethol Cymru*

Bethan Marlowe, *artist ar ei liwt ei hun*

Angharad Evans, *artist ar ei liwt ei hun*

Cerian Black, *ymgynghorydd treftadaeth a addysg*

Gareth Coles, *Celfyddydau Gwirfoddol Cymru*

GRWPIAU FFOCWS FFRAMWAITH ANSAWDD

Mawrth 2016:
Caernarfon, Caerdydd, Caerfyrddin, Llandrindod, Wrecsam

Hwylusydd: Laura Drane

Diolch yn fawr iawn i bawb a fynychodd Sesiwn Grŵp Ffocws a chyfrannu at yr adnodd hwn.

Diolch i Rachel Blanche a Chrissie Ruckley am eu hadborth i Sesiynau Gweithgor.

Diolch hefyd i Diane Hebb, Amanda Loosemore a Sian Thomas yng Nghyngor Celfyddydau Cymru am eu cefnogaeth a'u hadborth parhaus dros y chwe mis diwethaf.

Dylunio gwefan, adnodd gwefan a dylunio print: Webber Design Cyf. www.webber-design.com

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Ariannwyd Egwyddorion Ansawdd ArtWorks gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

AM Y CELFWAITH

Datblygodd y paentiadau ar gyfer yr Egwyddorion Ansawdd o gorff blaenorol o waith a gynhyrchais mewn ymateb i friff dan y teitl 'Dan yr Wyneb'. Roedd 'Dan yr Wyneb' yn gywaith gydag artistiaid o Ofod Awyr Rhyngwladol Casnewydd (N.I.A) ac yn cwmpasu gosodweithiau, celfwaith, gwaith penodol i safle a pherfformiadau.

Ymchwiliodd y paentiadau y gwelliannau yng nghanol dinas Casnewydd (datblygiad Rhodfa'r Brodyr) oedd yn mynd rhagddo bryd hynny. Dinistriwyd murlun yn darlunio Siartiaeth er mwyn paratoi'r safle. Roedd emosiynau yn uchel mewn ymateb i hyn. Hefyd darganfuwyd priordy hynafol a anwybyddwyd fel 'heb fod o unrhyw bwysigrwydd arwyddocaol' ac arweiniodd hyn fi i seilio'r paentiadau ar syniadau o golled a gwella. Rwy'n cael fy nghyfareddu gan sefyllfaoedd sy'n achosi difrod yn fwriadol ai peidio, a'r ffyrdd yr ydym yn ail-lunio ein hamgylchedd ar y dyfodol.

Dechreuais feddwl am gerameg. Nid dim ond dinistr torcalonnus murlun a grëwyd o fosaig, ond drwy'r broses o wneud y paentiadau - symleiddio llinellau a strwythurau drwy ddarlunio ar ben y ffotograffau. Fe wnaeth hyn fy atgoffa o Kintsugi - proses Japaneaidd sy'n dathlu amherffeithrwydd ac yn anrhydeddu hanes gwrthrych. Os oedd pot, cwpan neu blât wedi torri, yn hytrach na'u taflu, byddai crefftwyr yn eu trwsio gyda chyfuniad o bowdr aur ar hyd y llinellau toredig gan arwain at wrthrych unigryw a harddach nag o'r blaen. Meddyliais am hyn fel trosiad am adfywiad ein dinas.

Ar gyfer 'Egwyddorion Ansawdd' mae'r defnydd o fetelau prin yn arwydd o werth a chaiff pob paentiad ei gysylltu gyda llinellau eurddalen drwyddi draw, gan adlewyrchu ansawdd o fewn pob rhan. Mae Kintsugi yn dathlu amherffeithrwydd. Fel ymarferydd celfyddydau, gwn nad wyf yn berffaith! Mae cynllun yn rhan bwysig o bopeth a wnaf. Weithiau, gall gweithgareddau gael canlyniadau annisgwyl a gall hyn fod yn wirioneddol gadarnhaol. I fi, mae am fyfyrio am yr hyn a ddigwyddodd o'r blaen, gwneud gwelliannau drwy gynnig ffyrdd newydd o wneud pethau, arloesi a darganfod ffyrdd newydd i alluogi eraill i fynegi eu creadigrwydd eu hunain. Ymddengys hefyd fod siarad gyda phobl a chysylltu syniadau pobl, gan ail-lunio deilliannau creadigol yn adlewyrchu natur Kintsugi. Ymddangosai'n naturiol i fi i wneud y paentiadau yn
yr arddull yma.

Dull

Cefais fy ysbrydoli gan Pantone 2016 gan ddefnyddio gwyrdd golau, glas, lliw rhosyn a lelog, yn defnyddio llinellau cyfeiriadol i ddisgrifio'r tri chysyniad - symudiad cyfeiriadol (Gweithgaredd); ochrau miniog i ddiffinio copa mynydd (Gweledigaeth yr Artist); y llinellau o amgylch wyneb (Pobl/Cynhwysiant). Cafodd y strwythurau sylfaenol eu hamlinellu ar gynfas a gosodwyd stensilau papur a dorrwyd â llaw. Yn defnyddio cyfryngau cymysg (trosglwyddo delwedd, papur Japaneaidd a phaent acrylig gwydrog), crëwyd wynebau gyda gwead ac wedi hindreulio sy'n awgrymu treigl amser. Caiff wynebau eu crafu'n ôl ac ail-osod gwydrau. Gosodir eurddalen drwy stensilau. Cafodd fy ffotograffau fy hun (wynebau gyda gwead o haenau paent wedi cracio a theils wedi torri) eu trosglwyddo ar gynfas a'u hail-baentio.

— Marion Cheung, www.marioncheung-artist.com